OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 739 (Cy. 99 )(C. 19)

# TIROEDD COMIN, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2012

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2012 ddarpariaethau penodol o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") o ran Cymru.

Roedd Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2386) (Cy.197) (C.88) yn dwyn i rym nifer o ddarpariaethau at y diben cyfyngedig o alluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau neu gyfarwyddiadau ac i wneud rheoliadau, neu i wneud darpariaeth drwy reoliadau.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau sy'n ymwneud â datgofrestru a chyfnewid tir comin, a gweithfeydd arno, ynghyd ag apelau cysylltiedig.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym at bob diben sy'n weddill ddarpariaethau sy'n ymwneud â datgofrestru a chyfnewid tir comin, a gweithfeydd arno.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbedion sy'n ymwneud â'r darpariaethau a gaiff eu dwyn i rym gan erthyglau 2 a 3 o'r Gorchymyn hwn.

Gellir cael gwybodaeth bellach ar y darpariaethau y daw'r Gorchymyn hwn â hwy i rym yn y Nodiadau Esboniadol i Ddeddf Tiroedd Comin 2006 y gellir eu gweld yn www.legislation.gov.uk.

**NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN BLAENOROL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Cafodd y darpariaethau canlynol yn Neddf 2006 eu dwyn i rym o ran Cymru drwy orchmynion cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y dyddiad cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 3(5) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 4 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 5 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 6(4) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 7(4) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 8(1),(2) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 11(5), (6) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 12(a) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 13(1)(a) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 14 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 15 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 17(3), (10) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 19(6) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 20(2), (3) - at ddibenion | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) |

| | | |
|---|---|---|
| penodol | | (C.88) |
| Adran 21(2), (3) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 22 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 23 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 23 - at ddibenion penodol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 24 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 24 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 25 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 29(1), (6) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 31(6)(a) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 39(6) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 40 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 42(4) - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 43 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 44 - at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 45 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 47 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 49 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 50(1), | 12 Awst 2007 | 2007/2386 |

| | | |
|---|---|---|
| (4)-(6) - at ddibenion penodol | | (Cy.197) (C.88) |
| Adran 51 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 52 - at ddibenion penodol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Adran 53 - at ddibenion penodol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 2, paragraffau 2(2)(d) a (3), 3(2)(e) a (3), 4(6), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(4) a 10 – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 3, paragraffau 2(1), (5) a (6), 4, 5, 8(2) a (3) – at ddibenion penodol | 12 Awst 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 3, paragraff 9 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 4, paragraff 6 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 5, paragraffau 4, 6(a), 7(1)(yn rhannol) a (5) | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 6, Rhan 1 yn rhannol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 6, Rhan 1 yn rhannol | 1 Rhagfyr 2010 | 2010/2356 (C.114) |
| Atodlen 6, Rhan 2 yn rhannol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 6, Rhan 3 yn rhannol | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |
| Atodlen 6, Rhan 5 | 6 Medi 2007 | 2007/2386 (Cy.197) (C.88) |

Gwnaed y Gorchymyn Cychwyn canlynol o dan Ddeddf 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr a chan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru —

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion (Cymru a Lloegr) a Chychwyn Rhif 5 (Lloegr) (Diwygio)) 2010 (O.S. 2010/2356) (C. 114)

Gwnaed y Gorchmynion Cychwyn canlynol o dan Ddeddf 2006 gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr —

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2006 ( O.S. 2006/2504) (C.84)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2007 ( O.S. 2007/456) (C.17)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Lloegr) 2007 ( O.S. 2007/2584) (C.98)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 4 ac Arbedion) (Lloegr) 2008 ( O.S. 2008/1960) (C. 94)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 5) (Lloegr) 2010 ( O.S. 2010/61) (C.10)

Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 6) (Lloegr) 2011 ( O.S. 2011/2460) (C.88)

Gweler hefyd adran 56 o Deddf Tiroedd Comin 2006 ar gyfer y darpariaethau a fydd yn dod i rym heblaw drwy orchymyn cychwyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 739 (Cy. 99)(C. 19)

# TIROEDD COMIN, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2012

*Gwnaed* *7 Mawrth 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 56(1) a 59(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(**1**), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 2, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2012.

(2) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 1965" *("the 1965 Act")* yw Deddf Tiroedd Comin 1965(**3**); ac

ystyr "Deddf 2006" (*"the 2006 Act"*) yw Deddf Tiroedd Comin 2006.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Darpariaethau yn dod i rym**

**2.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2006 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2012—

(a) adran 16 (datgofrestru a chyfnewid: ceisiadau);

(**1**) 2006 p.26; mae adran 61(1) yn diffinio "appropriate national authority" fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).

(**3**) 1965 p.64.

(b) adran 17(1) i (2) a (4) i (9) (datgofrestru a chyfnewid: gorchmynion);

(c) adran 38 (gwaharddiad ar weithfeydd heb gydsyniad);

(ch) adran 39(1) i (5) a (7) (cydsyniad: cyffredinol);

(d) adran 41 (gorfodi);

(dd) adran 42(1) i (3) a (5) (cynlluniau);

(e) adran 48 (cau tir); ac

(f) i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(i) Atodlen 4 (gweithfeydd: atodol); a

(ii) Rhannau 2, 3 a 5 o Atodlen 6 (diddymiadau), ac adran 53 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darpariaethau hynny.

**Darpariaethau yn dod i rym at bob diben sy'n weddill**

**3.** Mae darpariaethau canlynol Deddf 2006 yn dod i rym at bob diben sy'n weddill ar 1 Ebrill 2012—

(a) adran 17(3) a (10) (datgofrestru a chyfnewid: gorchmynion);

(b) adran 39(6) (cydsyniad);

(c) adran 40 (cydsyniad: y weithdrefn);

(ch) adran 42(4) (cynlluniau);

(d) adran 43 (y pŵer i esemptio); ac

(dd) adran 44 (materion atodol).

**Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion**

**4.**—(1) Hyd nes y daw adran 1 o Ddeddf 2006 i rym mewn perthynas ag unrhyw ardal o Gymru—

(a) mae cyfeiriadau at dir wedi ei gofrestru'n dir comin neu'n faes y dref neu'n faes y pentref yn y canlynol—

(i) adrannau 16 ac 17 o Ddeddf 2006;

(ii) adrannau 38 a 44 o Ddeddf 2006; a

(iii) adran 29(2) o Ddeddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1907(**1**),

mewn perthynas â'r ardal honno, i'w trin fel cyfeiriadau at dir sydd wedi ei gofrestru felly o dan Ddeddf 1965;

(b) mae cyfeiriadau yn adran 17 o Ddeddf 2006 at hawliau comin yn cael eu cofrestru'n rhai sy'n arferadwy dros dir o'r fath i'w trin, mewn perthynas â'r ardal honno, fel cyfeiriadau at

(**1**) 1907 p.cxxxvi. Mae adran 29(2) wedi cael ei mewnosod gan adran 44(1) o Ddeddf 2006 a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi.

hawliau comin sydd wedi eu cofrestru felly o dan Ddeddf 1965; a

(c) mae gorchymyn o dan adran 17(1) o Ddeddf 2006 sy'n ymwneud â thir yn yr ardal honno i'w drin fel gorchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cofrestru tiroedd Comin dynnu'r tir a ryddheir o gofrestr y tiroedd comin neu feysydd tref neu bentref a gedwir o dan Ddeddf 1965, ac (os yw'n gymwys) i gofrestru'r materion y cyfeirir atynt yn adran 17(2) o Ddeddf 2006 yn y gofrestr honno.

(2) Er gwaethaf diddymu adran 147 o Ddeddf Cau Tir 1845(**1**), adran 4 o Ddeddf Cau Tir 1847(**2**) ac adrannau 4 a 5 o Ddeddf Cau Tir 1857(**3**), mae unrhyw gais am orchymyn cyfnewid o dan adran 147 o Ddeddf Cau Tir 1845 a wnaed cyn 1 Ebrill 2012 i'w drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai'r darpariaethau hynny wedi parhau mewn grym.

(3) Ni fydd adran 38(1) o Ddeddf 2006 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithfeydd sy'n cael eu gwneud yn unol â chydsyniad a roddir o dan adran 194 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925(**4**) cyn 1 Ebrill 2012.

(4) Er gwaethaf diddymu adran 194 o Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925—

(a) mae unrhyw gais am gydsyniad o dan yr adran honno a wnaed cyn 1 Ebrill 2012 i'w drin ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw fel pe bai'r adran honno'n parhau mewn grym; a

(b) os rhoddir cydsyniad i gais o'r fath, ni fydd adran 38(1) o Ddeddf 2006 yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithfeydd sy'n cael eu gwneud yn unol â'r cydsyniad hwnnw.

(5) Ni fydd adran 23(2A) o Ddeddf yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 1971(**5**) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gais am gydsyniad o dan yr adran honno a wnaed cyn 1 Ebrill 2012.

*John Griffiths*

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy,
un o Weinidogion Cymru

7 Mawrth 2012

---

(**1**) 1845 p.118. Mae adran 147 wedi ei diddymu gan adrannau 48(1) a 53 o Ddeddf 2006 a Rhan 3 o Atodlen 6 iddi.

(**2**) 1847 p.111. Mae adran 4 wedi ei diddymu gan adran 53 o Ddeddf 2006 a Rhan 3 o Atodlen 6 iddi.

(**3**) 1857 p.31. Mae adrannau 4 a 5 wedi eu diddymu gan adran 53 o Ddeddf 2006 a Rhan 3 o Atodlen 6 iddi.

(**4**) 1925 p.20. Mae adran 194 wedi ei diddymu gan adran 53 o Ddeddf 2006 a Rhan 2 o Atodlen 6 iddi.

(**5**) 1971 p.vi. Mae adran 23(2A) wedi ei mewnosod gan adran 44(1) o Ddeddf 2006 a pharagraff 4(3) o Atodlen 4 iddi.